

Llywodraeth Cymru

Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Benthyciad tymor byr di-log rhwng £1,000 a £25,000 i Berchnogion Deiliaid, Landlordiaid, Datblygwyr ac Elusennau wneud eu cartref yn gynnes ac yn ddiogel.

BETH SYDD AR GAEL?

- Benthyciad dewisol hyd at £25,000 i gynorthwyo perchnogion i wella safon eu tai.
- Bydd cynigion benthyciadau rhwng lleiafswm o £1,000 hyd ar uchafswm o £25,000 fesul uned o lety, efo uchafswm o £150,000 i bob ymgeisydd ar unrhyw adeg.
- Mae cymhareb benthyciad i werth uchaf o 80% - yn seiliedig ar werth marchnad cyfredol a chyflwr yr eiddo a gynigir fel Diogelwch, yn ogystal ag unrhyw gyllid pellach a sicrheir yn erbyn yr eiddo. Mae'r benthyciad ar gael os nad yw'r morgais ac unrhyw fenthyciad (au) gwarantedig / cyllid gyda'i gilydd yn fwy na 80% o werth cyfredol y cartref.
Er enghraifft, ar eiddo gwerth £100,000, yr uchafswm LTV fyddai £80,000, felly:
A) os yw'r eiddo werth £100,000 a bod gennych forgais 75% (h.y. £75,000), dim ond am £5,000 (hy ecwiti 5% sy'n weddill) y gallwch wneud cais am adnewyddiad.
B) os yw'r eiddo werth £100,000 a bod gennych 60% o forgais (hy £60,000) a chyllid wedi'i sicrhau sy'n dod i gyfanswm o 15% arall (hy £15,000) dim ond am £5,000 (hy ecwiti 5% sy'n weddill) y gallwch wneud cais am fenthyciad adnewyddu
- Bydd pob benthyciad yn cael cynnig di-log, ond bydd yn rhaid cynnwys tâl gweinyddol o £500; gellir ychwanegu hyn at y benthyciad neu ei dalu ymlaen llaw.

CYMHWYSEDD

- Mae'r cymorth hwn yn DDEWISOL
- Mae cymorth Benthyciad Gwella Cartref ar gael i:
o Perchen-feddianwyr - prif breswylfa yn unig o Landlordiaid (unigolion a chwmnïau)
o Datblygwyr (partneriaethau a chwmnïau)
o Elusennau / Sefydliadau Trydydd Sector

CAIS

- Rhaid i geisiadau gael eu cefnogi gan bris a gymeradwywyd, a phrawf teitl.
- Rhaid i'r eiddo fod wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir cyn gwneud cais.
- Os nad yw'r benthyciad yn cynnwys costau llawn y gwaith, mi fydd angen tystiolaeth fod gweddill yr arian ar gael ar gyfer cwblhau'r prosiect o'r cychwyn.
- Bydd gallu'r ymgeisydd i fforddio'r benthyciad yn cael ei benderfynu a'i weinyddu gan Gyngor Gwynedd a Street-UK ar y cyd.

AMODAU

- Rhaid i berchen-feddianwyr ad-dalu'r benthyciad o fewn uchafswm cyfnod benthycia o 7 mlynedd
- Mae'n rhaid i Landlordiaid, Datblygwyr ac Elusennau ad-dalu'r benthyciad o fewn 5 mlynedd.
- Bydd pob benthyciad yn cael ei sicrhau fel arwystl yn erbyn Teitl y Gofrestrfa Tir.

SUT I GYSYLLTU?

I ofyn am ffurflen datganiad a ddiddordeb cysylltwch â ni:

Tai Sector Preifat,
Adran Tai ac Eiddo,
Cyngor Gwynedd,
Cae Penarlag,
Dolgellau,
Gwynedd
LL40 2YB

☎ 01341 424371 or 01341 434351
✉ taigwag@gwynedd.llyw.cymru

